**<u>Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-18-00 (p6)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **29 Tachwedd 2000** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl :** | **Adolygiad o’r Gwasanaethau Cymorth a Datblygu i Fusnesau** |

## Pwrpas y Papur

1. Cyflwyno drafft cyntaf adroddiad llawn yr Adolygiad o’r Gwasanaethau Cymorth a Datblygu i Fusnesau (Papur ED-18-00(p6a)) Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried yr adroddiad hwn a thrafod y newidiadau y carai eu gweld ynddo ac ystyried cynigion ar gyfer gweithredu pellach.

## Cefndir

2. Mae’r Pwyllgor wedi datblygu’r adroddiad hwn trwy gynnal nifer o sesiynau anffurfiol, ymweld ag Iwerddon a Brwsel i gwrdd â chynrychiolwyr datblygu economaidd o rannau eraill o’r UE a thrwy drafod ag asiantaethau sy’n darparu gwasanaethau i fusnesau. Mae cyfarfod gyda chyrff sy’n cynrychioli buddiannau busnes yn cael ei gynnal ar 30 Tachywedd. Mae’r drafft cyfredol yn cynnwys y sylwadau a gafwyd yn y cyfarfod gyda’r asiantaethau datblygu economaidd.

3. Mae’r aelodau eisoes yn ymwybodol o’r argymhellion fydd yn cael eu gwneud gan eu bod wedi trafod crynodeb gweithredol yr adroddiad yn anffurfiol.

## Camau nesaf

4. Cynigir trosglwyddo’r adroddiad drafft i Glercod y Pwyllgorau Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Llywodraeth Leol a Thai er mwyn i’w haelodau wybod trywydd ein meddyliau ac i gydlynu eu gweithgareddau, yn enwedig ym maes cymorth i fusnesau. Caiff y pwyllgorau eraill gyfle i fynegi eu barn yn ein trafodaeth derfynol ar 13 Rhagfyr.

5. Unwaith y bydd yn derfynol, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi a’i gyflwyno’n ffurfiol i’r Gweinidog Datblygu Economaidd iddo gael ystyried ei weithredu. Caiff ei roi gerbron y Cyfarfod Llawn yn y sesiwn nesaf.

6. Mae gan y Cynulliad ymrwymiad statudol o dan adran 115 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 i ymgynghori â busnesau ynghylch unrhyw fater sy’n effeithio arnynt. Yn ôl y protocol y cytunwyd arno gyda’r Bartneriaeth Fusnes, mae cyfnod ymgynghori o ddeufis yn ofynnol. Dywed y cyngor cyfreithiol a gawsom mai dyletswydd y weithrediaeth ac nid y pwyllgor yw hyn. Cynigir felly y dylai’r cyfnod hwn ddechrau yn y Flwyddyn Newydd. Gofynnir i’r pwyllgor am ei farn ynghylch pryd i drafod y mater yn y Cyfarfod Llawn, p’un ai cyn neu ar ôl yr ymgynghori hwn. Amgaeir yn Atodiad 1 gwestiynau a gynigiwyd gan y Gweinidog Economaidd ar gyfer yr ymgynghori. Awgrymir bod y Gweinidog a’r Pwyllgor yn cynnal yr ymgynghori ar y

cyd.

**Y Camau sydd eu hangen**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad drafft a gwneud unrhyw argymhellion i newid y testun, a'r drefn ymgynghori bellach. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yn arbennig y cwestiynau y dylid eu gofyn yn yr ymgynghoriad ffurfiol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Annex 1**

**Cwestiynau Posib ar gyfer Adolygiad y PDatEcon o'r Cymorth i Fusnesau**

| | |
|---|---|
| **Cyswllt Busnes:** | A fyddai colli Cyswllt Busnes fel partneriaeth annibynnol trwy Gymru yn beth drwg neu a yw'n pris gwerth ei dalu er mwyn cryfhau'r rhwydwaith trwy dynhau ei gysylltiadau â'r WDA o ran cefnogaeth weithredol?<br><br>A fydd y trefniadau arfaethedig yn cryfhau neu'n gwanhau'r bartneriaeth? A ddylai Bwrdd Cyswllt Busnes barhau ar lefel genedlaethol neu a ddylid ei ranbartholi?<br><br>Sut mae sicrhau ansawdd y rhwydwaith a chyfrifoldeb pwy yw hynny? |

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Polisi Economaidd:** | Pa rolau a chyfrifoldebau y dylid eu cynrychioli ar y Bwrdd? Beth ddylai ei berthynas â'r Cynulliad a'i Bwyllgorau; Byrddau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad; y Bartneriaeth Fusnes ac eraill (e.e. y Gwasanaeth Cyflogi) fod? |
| **Uned Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Economaidd:** | A oes consensws ar gylch gwaith yr Uned fel y'i disgrifir yn yr adroddiad, ac ynghylch yr argymhelliad y dylid ei chartrefu yn y Cynulliad? Beth ddylai'r berthynas rhwng yr Uned a'r Bwrdd fod? |
| **Strategaeth a Darparu:** | A oes yna gamau y dylid eu cymryd i symleiddio dulliau darparu nad yw'r adroddiad yn sôn amdanynt? |
| **Gweithio mewn Partneriaeth:** | Sut mae sicrhau mwy o gydlyniant a chysondeb? Pa bartneriaethau y dylid cael gwared arnynt er lles symleiddio'r drefn?<br><br>Sut mae sicrhau cydlyniant â'r trefniadau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE? A ddylai'r Cynulliad ailgyfeirio arian gan gymryd y strwythur newydd i ystyriaeth?<br><br>Sut gall y sector cyhoeddus ymateb yn well i anghenion/ buddiannau'r sector preifat yn hyn o beth? Beth ddylai prif elfennau'r Fframwaith Strategol fod? |